**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

**Adroddiad i'r Cyfarfod Llawn o dan Reol Sefydlog 9.9:**
**Ebrill 2004 hyd Fawrth 2005**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Llunnir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sydd yn gofyn bod y pwyllgorau pwnc yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad o dro i dro ar eu cynnydd wrth gyflawni'u rhaglen waith. Mae'n crynhoi gwaith y Pwyllgor o Ebrill 2004 hyd Fawrth 2005.

## AELODAETH

2.1 Aelodau'r Pwyllgor ar hyn o bryd yw Ann Jones (Cadeirydd), Glyn Davies, Sue Essex (Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Mike German, Alun Ffred Jones, Laura Ann Jones, Peter Law, Dai Lloyd, Val Lloyd a Gwenda Thomas[1].

## 3. CYLCH GWAITH A CHYFRIFOLDEBAU

3.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys llywodraeth leol a datblygu agwedd strategol tuag at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw'n cynnwys cyfrifoldebau'r Gweinidog o ran cyllid y Cynulliad na materion polisi neu gyllid a gynhwysir mewn portffolio arall yn unig.

3.2 Cynhaliodd y Pwyllgor 13 cyfarfod ffurfiol yn ystod cyfnod yr adroddiad, ac roedd dau o'r rhain yn gyfarfodydd ar y cyd â Phwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin[2] (gweler paragraff 4.7).

3.3 Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8. Ceir yng ngweddill yr adroddiad hwn fanylion am agweddau pwysig ar waith y Pwyllgor o dan bob un o'r penawdau hyn.

## 4. GWAITH A CHYRAEDDIADAU HYD YMA

### Datblygu Polisïau (Rh.S 9.7(i))

***Gweithredu strwythurau rheoli gwleidyddol newydd mewn llywodraeth leol***

4.1 Ym mis Mehefin 2004, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ei ymchwiliad cyntaf *Gweithredu dulliau newydd o reoli gwleidyddol mewn llywodraeth leol*. Yn y cyfarfod ym mis Medi 2004,yn unol â'r protocol a gytunwyd ar gyfer trafod adroddiadau ymchwiliad, rhoddodd y Gweinidog ateb ysgrifenedig i ddarganfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor. Er mwyn sicrhau canlyniadau effeithiol yn y cynnydd a wneir wrth weithredu'r argymhellion, cytunodd y Pwyllgor i dderbyn newyddion cyfredol gan y Gweinidog yn ei hadroddiad

---

[1] Val Lloyd and Gwenda Thomas joined the Committee on 25 January 2005 in place of Lorraine Barrett and Tamsin Dunwoody-Kneafsey.

[2] The Welsh Affairs Committee is a departmentally-related select committee of the House of Commons. Its terms of reference are to examine matters within the responsibility of the Secretary of State for Wales (including relations with the National Assembly for Wales).

ysgrifenedig bob tymor[3]. O ganlyniad i un o'r argymhellion oedd yn yr adroddiad[4], cymeradwyodd y Cynulliad *Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithredol a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004 ym mis Tachwedd* 2004.

***Gweithredu'r drefn rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru***

4.2 Ym mis Ebrill 2004, dechreuodd y Pwyllgor ymchwiliad i weithredu'r drefn rheoleiddio ac arolygu yng Nghymru[5]. Gwahoddodd y pwyllgor am ymatebion ysgrifenedig gan amrediad eang o fuddianwyr a derbyniwyd 28 ymateb. Gwrandawyd ar dystiolaeth lafar gan nifer o gyrff allweddol[6] a bu'r Aelodau ar ymweliadau *rapporteur* â Llanelwy a Chaerfyrddin lle y cynhaliwyd ganddynt gyfarfodydd â chynrychiolwyr o feysydd addysg a gwasanaethau cyhoeddus[7]. Ym mis Tachwedd 2004, cyfarfu'r Pwyllgor â Phwyllgor Llywodraeth Leol a Thrafnidiaeth Senedd yr Alban, swyddogion Gweithrediaeth yr Alban a swyddogion Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban i drafod trefniadau rheoleiddio ac arolygu yn yr Alban.

4.3 Yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2005, cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad terfynol. Arfaethir cyhoeddi'r adroddiad ym mis Mai 2005 a bydd yn cynnwys cyfres o argymhellion sydd â'r nod o symleiddio'r drefn rheoleiddio ac arolygu yng Nghymru a hyrwyddo gwelliant parhaus wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

***Trefniadau Etholiadol yng Nghymru***

4.4 Yn dilyn trafodaeth ar adroddiad Y Comisiwn Etholiadol *Etholiadau Lleol yng Nghymru 2004*, cytunodd y Pwyllgor pan gyfarfu ym mis Mawrth 2005 gylch gorchwyl ar gyfer ei brosiect ar drefniadau etholiadol yng Nghymru[8]. Bwriedir parhau â'r gwaith ar y prosiect hwn tan yn hwyr yn 2005.

## Adolygu Gwariant a Gweinyddu (RhS 9.7(ii))

[3] The first progress report was considered at the 9 March meeting, LGPS 03-04(p1).

[4] Recommendation 9: We recommend that the Welsh Assembly Government amends the Local Authorities (Operation of Different Executive or Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2002 so that local authorities have the freedom to reform their political management structures and overview and scrutiny arrangements as they see fit.

[5] Terms of reference for the inquiry: '*To consider the operation of the public services regulation and inspection regime in Wales, including the roles and accountabilities of inspectorates, their interaction with inspected bodies and the added value the regime brings to public service improvement*'.

[6] Professor Steve Martin, Centre for Local & regional Government Research, Cardiff University; Audit Commission in Wales; Estyn; Care Standards Inspectorate for Wales; Social Services Inspectorate for Wales and the Welsh Local Government Association.

[7] Care Forum Wales; Association of British Social Workers; representatives from local schools and local authorities.

[8] Terms of reference: '*To consider the issues surrounding the arrangements for local government and National Assembly elections in Wales, in particular, voter registration, voter turnout, the participation of young people and voting in languages other than English; to consider a range of measures used within other political systems to improve voter turnout, registration and the participation of young people and the extent to which they could be applied to local government and National Assembly elections in Wales; to consider if any additional measures are required to ensure that voting arrangements in Wales are fully inclusive; to make recommendations.'*

**Adroddiad y Gweinidog**
4.5 Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Gweinidog ym mhob yn ail gyfarfod ac roedd hyn yn caniatáu craffu rheolaidd ar y polisïau a'r penderfyniadau y mae'r Gweinidog yn atebol drostynt.

**Adolygu'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad(RhS 9.7(iii))**
4.6 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Ym mis Ebrilll 2005 bydd y Pwyllgor yn trafod Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2003-04.

**Deddfwriaeth (RhS9.8(i))**
**Deddfwriaeth Sylfaenol**
***Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)***
4.7 Ym mis Rhagfyr 2004, yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod llawn ar Araith y Frenhines, anfonodd y Cynulliad Fesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) i'r Pwyllgor[9]. Yn unol â'r arfer a sefydlwyd yn ddiweddar[10], bu'r Pwyllgor yn cynnal sesiynau craffu ar y cyd â Phwyllgor Materion Cymreig Ty^'r Cyffredin. Er mwyn dilysu'u gwaith, gofynnodd y Pwyllgorau am dystiolaeth ysgrifenedig gan ystod eang o gyrff y byddai'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar y cyd ar 13 ac 17 Ionawr 2005 pan wrandawodd y Pwyllgorau ar dystiolaeth lafar naw o dystion i gyd.[11]. Yn dilyn hyn cytunodd Y Pwyllgor llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar adroddiad[12], oedd yn cynnwys cyfres o argymhellion ac awgrymiadau am welliannaui'r Mesur. Anfonwyd yr adroddiad at yr Aelodau perthnasol yn Nhy'r Cyffredin a Thy^'r Arglwyddi i fod yn gymorth ffeithiol i'r drafodaeth yng nghyfnodau Seneddol y Mesur sydd yn weddill.

**Is-ddeddfwriaeth**
4.8 Daliai'r Pwyllgor i weithio'n unol â'r protocol a gytunwyd ar gyfer trafod is-ddeddfwriaeth – protocol a sefydlwyd ym mis Mehefin 2004. Ym mhob yn ail gyfarfod,derbyniodd y Pwyllgor amserlen fanwl yn dangos yr is-ddeddfwriaeth sydd ar y gweill o fewn portffolio'r Gweinidog a thrafododd 11 darn o is-ddeddfwriaeth yn ystod yn cyfnod a gynhwysir yn yr adroddiad..

4.9 Gwelir manylion am yr is-ddeddfwriaeth a drafodwyd yn y Pwyllgor yn Atodiad 1.

4.10 Yn ychwanegol at hyn, yng nghyfarfod 9 Chwefror 2005, cynhaliwyd sesiwn craffu yn y Pwyllgor ar ddrafft y *Rheoliadau Deddf Argyfyngau*

---

[9] National Assembly for Wales, Record of Proceedings 1 December 2004, p.97.
[10] The House of Commons formally passed the required amendment to its Standing Orders on 7 June 2004 to allow joint working and a similar motion to amend the Assembly's Standing Orders was passed by plenary on 15 June 2004.
[11] Vivienne Sugar, Welsh Consumer Council; Peter Johns and Tommy Morgan, Board of Community Health Councils in Wales; Steve Thomas, Welsh Local Government Association; Adam Peat, Local Government and Health Service Ombudsman for Wales, Welsh Administration Ombudsman; Eric Drake, Scottish Public Services Deputy Ombudsman; Don Touhig MP, Parliamentary Under Secretary of State for Wales; Sue Essex AM, Minister for Finance, Local Government and Public Services, Welsh Assembly Government; and Ann Abraham, Parliamentary Commissioner for Administration (Ombudsman) and Health Service Commissioner for England.
[12] Report of the Local Government and Public Services Committee on the Public Services Ombudsman (Wales) Bill, February 2005.

*Sifil(Cynllunio am Argyfyngau) 2005* lle y gwrandawyd tystiolaeth gan Sue Essex AM, Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, cynrychiolwyr Llywodraeth y DU, llywodraeth leol a'r gwasanaethau brys yng Nghymru[13]. Yn dilyn hyn, cytunasom ar adroddiad [14] a gyflwynwyd yn ffurfiol i Swyddfa'r Cabinet fel ymateb i'r ymgynghoriad ar y canllawiau a'r rheoliadau drafft.

**Deddfwriaeth Ewropeaidd**

4.11  Ym mis Mai2004, cytunodd y Pwyllgor ar ddull o drafod deddfwriaeth Ewropeaidd yn y dyfodolac, yn sgil hyn, ym mhob yn ail gyfarfod derbyniodd fanylion am ddogfennau perthnasol i'w bortffolio a osodwyd yn Senedd y DU.Yn y cyfarfod ar 7 Gorffennaf 2004 trafododd y PwyllgorBapur Gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd ar Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat. Yn dilyn y cyfarfod cytunasom ar adroddiad[15], a anfonwyd i'r Comisiwn i fod yn gymorth ffeithiol i'r broses ymgynghori.

**<u>Cyllideb (RhS 9.8(ii))</u>**

4.12  Ym mis Mai 2004 trafododd y Pwyllgor ei flaenoriaethau ar gyfer y gyllidebo fewn Prif Grwp Gwariant Llywodraeth Leolar gyfer 2005-06 ac ysgrifennodd at y Gweinidog i gyfleu'i farn yn ffurfiol. Yn dilyn ei sesiwn craffu ar y gyllideb ddrafft yn y cyfarfod ar 10 Tachwedd2004, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Gyllid yn unol â Rheol Sefydlog 21.

**<u>Cwynion (RhS 9.8(iii))</u>**

4.13  Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2004 trafododd y Pwyllgor adroddiad gan Ombwdsmon Gweinyddu Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 23, gan argymell gwelliant i ymateb arfaethedig y Prif Weinidog i'r adroddiad.

**<u>Penodiadau Cyhoeddus (RhS 9.8(iv))</u>**

4.14 Bu enwebeion penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor [16] ynghlwm wrth benodi'r Cadeirydd ac Aelodau Panel Taliadau Annibynnol Cymru.

**<u>Materion a gyfeiriwyd gan y Cynulliad (RhS 9.8(v))</u>**

4.15 Ym mis Rhagfyr 2004, cyfeiriwyd Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) i'r Pwyllgor (gweler paragraff 4.4).

## <u>5.  MATERION TRAWSBYNCIOL</u>

5.1  Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2004 trafododd y Pwyllgor gynllun gweithredu drafft Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad er mwyn bwydo'i syniadau i'r broses ymgynghori cyn i'r cynllun gweithredu gael ei fabwysiadu yn y cyfarfod llawn.5.2 Ym mis Ebrill 2004 cyflwynodd Comisiynydd Plant Cymru ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002-03 i'r Pwyllgor. Yn sgil trafodaeth,

---

[13] Roger Hargreaves and Rebecca Lane, Cabinet Office; Steve Thomas, Welsh Local Government Association; Cheryl Andrews, Caerphilly County Borough Council; and Superintendent Michael Long, South Wales Police.

[14] Report of the Local Government and Public Services Committee on the draft *Civil Contingencies Act 2004 (Contingency Planning) Regulations 2005,* February 2005.

[15] Report of the Local Government and Public Services Committee on the European Commission Green Paper on Public-Private Partnerships and Community Law on Public Contracts and Concessions, July 2004.

[16] Ann Jones and Glyn Davies.

ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cydeithasol i fynegi'i bryder ynghylch cyflwr toiledau ysgol a hefyd ynghylch effaith Y Mesur Plant ar waith Comisiynydd Plant Cymru.

5.3 Ym mis Mai 2004 trafododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed ar Fenter Reoli'r Sector Cyhoeddus, sydd yn torri ar draws y sector cyhoeddus ac sydd wedi'i sefydlu i wella arweinyddiaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn dilyn trafodaeth, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cynnwys y gwasanaeth iechyd yn y fenter.

5.4 Fel rhan o'r broses ymgynghori i roi gwybodaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i reoleiddio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus, gofynasom am sylwadau ysgrifenedig gan nifer o grwpiau sy'n cynrychioli diddordebau lleiafrifol [17].

5.5 Mae prosiect cyfredol y Pwyllgor ar drefniadau Etholiadol yng Nghymru yn ceisio ymdrin â materion cydraddoldeb gan gynnwys pleidleisio mewn ieithoedd heblaw Saesneg (gweler paragraff 4.4). Yn ystod cwrs y prosiect, bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â chyrff perthnasol i gynorthwyo â'i waith.

## 6. BLAEN-RAGLEN

Atodir rhaglen waith strategol y Pwyllgor a gytunwyd ym mis Gorffennaf 2004, yn Atodiad 2.

[17] All Wales Ethnic Minority Association, Commission for Racial Equality, Disability Rights Commission and Equal Opportunities Commission.

**Atodiad 1**

**Is-ddeddfwriaeth a drafodwyd gan Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Ni chyfeiriwyd unrhyw OS yn ffurfiol i'r Pwyllgor o dan RS 22.6.

Yn unol â'r protocol a gytunwyd ar gyfer trafod is-ddeddfwriaeth yn y Pwyllgor, clustnodwyd yr OS canlynol a chraffu arnynt:

- *Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cyfrifo sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor(Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio)2004;*
- *Gorchymyn Treth Gyngor(Anheddau trethadwy, Anheddau sydd wedi'u Heithrio a Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2005;(Saesneg yn unig)*
- *Rheoliadau Treth Gyngor(Atebolrwydd Perchnogion)(Diwygio)(Cymru) 2005;(Saesneg yn unig)*
- *Rheoliadau Trefniadau Gweithredu Awdurdodau Lleol (Gweithrediaeth a Chyfrifoldebau)(Diwygio)(Cymru) 2004;(Saesneg yn unig)*
- *Rheoliadau Trefniadau Amgen Awdurdodau Lleol(Diwygio) (Cymru) 2004;(Saesneg yn unig)*
- *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Trefniadau Trosiannol(Cymru) 2004;*
- *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu)Trefniadau Trosiannol (Cymru) 2004;*
- *Gorchymyn(Dirymu) Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau)(Cymru) 2002 2005;*
- *Gorchymyn Llywodraeth Leol(Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau)(Cymru) 2005;*
- *Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005;*
- *Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) 2005.(Saesneg yn unig)*

Gellir gweld adroddiadau ar yr uchod ar wefan y Pwyllgor[18].

Clustnodwyd yr OS canlynol i'w trafod yn y dyfodol:

- *Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Mynediad at Wybodaeth) (Gwybodaeth Esempt) (Cymru) 2005;*
- *Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2005*
- *Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2005;*
- *Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion a Chod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2005;*
- *Rheoliadau Awdurdodau Lleol ar Ddigolledu Aelodau a Swyddogion (Cymru) 2005;*
- *Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 2005.(*Saesneg yn unig)

[18] http://www.wales.gov.uk/keypubassemlocgovpubsvs/content/reports-e.htm

**Atodiad 2**

# BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS 2004/05

**Cyflwyniad**

1. Mae'r rhaglen waith yma'n nodi blaenoriaethau strategol y Pwyllgor ar gyfer y deuddeg i ddeunaw mis nesaf.

**Cylch gwaith a chyfrifoldebau**

2. Seilir cylch gwaith y Pwyllgor ar bortffolio Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae'n cynnwys llywodraeth leol, datblygu agwedd strategol at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a Chynllun Gofodol Cymru.Nid yw'n cynnwys cyfrifoldebau'r Gweinidog o ran cyllid y Cynulliad na materion polisi neu gyllid a gynhwysir mewn portffolio arall yn unig.

3. Prif gyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc, fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 9,yw: datblygu polisïau; craffu ar waith Gweinidogion a chyrff perthnasol; a chraffu ar ddeddfwriaeth.

**Nodau**

4. Bydd y pwyllgor yn datblygu agwedd strategol tuag at ei waith ac yn amcanu at drafod yn gytbwys y gwahanol bynciau sydd yn y portffolio a'i amrediad o gyfrifoldebau.

**Blaenoriaethau**

5. Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

– *Datblygu polisïau (RhS 9.7(i))* – bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd hynny o ddatblygu polisi lle y gall ddylanwadu fwyaf. Bydd yn parhau â'i ymchwiliad i weithredu'r drefn rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus fel y cytunwyd yn ei gylch gorchwyl.[19] .

– *Craffu ar waith y Gweinidog (RhS 9.7(ii))* – Bydd y Gweinidog yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ym mhob yn ail gyfarfod ynghylch datblygiadau cyfredol yn y portffolio. Gall y pwyllgor hefyd ymchwilio'n ddyfnach i bynciau neilltuol.

– *Craffu ar gyrff pertnasol (RhS 9.7 (iii))* – Bydd y Pwyllgor yn trafod gwaith Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol yng Nghymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Uned Gydraddoldeb Llywodraeth Leol, Uned Data Llywodraeth Leol yng Nghymru, Syniad a'r Comisiwn Archwilio.

– *Craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig sydd yn effeithio ar Gymru* (*RhS 9.8(i) a 24)* – ym mhob yn ail gyfarfod bydd y Pwyllgor yn derbyn amserlen yn

---

[19] *To consider the operation of the public services regulation and inspection regime in Wales, including the roles and accountabilities of inspectorates, their interaction with inspected bodies and the added value the regime brings to public service improvement.*

nodi’r is-ddeddfwriaeth sydd ar y gweill ac yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, a manylion hefyd am ddogfennau diweddar yr UE a osodwyd yn Senedd y DU ac sydd yn berthnasol i’w bortffolio. Bydd y Pwyllgor yn clustnodi ar gyfer craffu arnynt yr eitemau hynny o ddeddfwriaeth lle mae modd dylanwadu ar y cynnwys a bydd hefyd yn trafod is-ddeddfwriaeth ddrafft briodol a gyfeiriwyd gan y Dirprwy Lywydd. Hefyd,hysbysir y Pwyllgor am unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol arfaethedig.

<u>Bydd y Pwyllgor yn trafod yr eitemau canlynol yn ôl y gofyn:</u>

– *Cynigion ar gyfer cyllid y Cynulliad* (RhS 9.8(ii)) – bydd y Pwyllgor yn nodi’i flaenoriaethau cyllidol yn nhymor yr haf ac yn rhoi’i sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn nhymor yr hydref;

– *cwynion* (RhS 9.8(iii) a 23) – bydd y Pwyllgor yn trafod unrhyw gwynion a gyfeiriwyd ato dan Reol Sefydlog 23;

– *penodiadau cyhoeddus* (RhS 9.8(iv) a 22) – bydd dau enwebai penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi i gyrff cyhoeddus pan fydd angen llenwi swyddi gwag;

– *materion eraill a gyfeiriwyd gan y Cynulliad*(RhS 9.8 (v)) – Bydd y Pwyllgor yn trafod materion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad Cenedlaethol, ond gofynnir i Aelodau’r Cynulliad gael gair â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigion sydd yn gwahodd y cyfarfod llawn i anfon gwaith i’r Pwyllgor.

**Dyletswyddau Statudol y Cynulliad**

6. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod dyletswyddau penodol ar y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd gwaith y Pwyllgor yn dilyn y canllawiau canlynol:

– *Cyfle Cyfartal (s.48 ac s.120)* – Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor yn gyhoeddus ac,yn achlysurol, mewn lleoliad heblaw adeilad y Cynulliad er mwyn gwneud ei waith yn fwy hygyrch i bobl drwy Gymru i gyd. Bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth i gyfle cyfartal wrth drafod holl ystod y materion sydd yn ei bortffolio;

– *Datblygiad Cynaliadwy (s.121)* – yn ei holl drafodaethau bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau drwy ddatblygu cynaliadwy gydbwysedd rhwng cynnydd economaidd a chymdeithasol a diogelu’r amgylchedd. Adlewyrchir hyn yn ei argymhellion ei hun ar gyfer adolygu polisi.

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Mehefin 2004**